**Cyfarfod Cyhoeddus Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru**

Bydd cyfarfod nesaf Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn canolbwyntio ar bolisi ynni Cymru, ac ynni adnewyddadwy yn benodol.

Cyn bo hir bydd Pwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori cyntaf ei Adolygiad o Bolisi Ynni Cymru. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar ynni adnewyddadwy ac yn codi cwestiynau ynghylch ffyrdd o'i ddatblygu er mwyn lleihau'r carbon sydd yn yr aer a mynd i'r afael â ffactorau twymo'r ddaear. Bydd hefyd yn nodi'r cyfleoedd yn y sector ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu, buddsoddi a chreu swyddi dros Gymru gyfan. Mae'r adroddiad yn trafod gosod targedau ar gyfer cynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy a ffyrdd o hwyluso'r datblygiadau hyn. Bydd yr adroddiad ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol (www.cymru.gov.uk) yn hwyr ym mis Ebrill.

Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus, mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd – sy'n cynnwys pob Aelod o'r Cynulliad yn y rhanbarth – yn cynnal cyfarfod cyhoeddus **ddydd Gwener 24 Mai**

Mae'r agenda hefyd yn neilltuo amser ar gyfer sesiwn holi ac ateb rhwng aelodau'r cyhoedd a'r **Prif Weinidog, Rhodri Morgan**.

Cynhelir y cyfarfod yn y **Neuadd Goffa Newydd, Gresffordd, Wrecsam** rhwng 10.00am a 1.00pm.

Mae lle yn brin, felly os hoffech chi fynd i'r cyfarfod, cysylltwch â llinell neilltuo lle y Cynulliad ar (029) 2089 8477.